# Bwletin Beacon

RHIFYN 1



## Uchafbwyntiau'r Bwletin:

- Addewid Beacon
- Cwrdd â'r tîm
- Rydym eich angen chi
- Beth sydd ar y gorwel

*Y tro hwn, ni sydd wedi ysgrifennu Bwletin Beacon, ond tro nesaf byddem wrth ein bodd i chi ein helpu i ddweud beth ddylai fod ynddo, sut mae'n edrych a beth sydd bwysicaf i chi.*

# Croeso i fwletin Beacon



**Helo. Serena Jones ydw i, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau, sy'n golygu fy mod yn gyfrifol am safon y gwasanaethau landlord a gewch gennym yn Beacon.**

Rwy'n falch i gyflwyno rhifyn cyntaf un y bwletin yma, sy'n lansio 'Addewid Beacon'. Mae hyn yn nodi esblygiad yn y ffordd y gweithiwn gyda chi i ddeall yn well beth sy'n bwysig i chi a gweithredu ar yr adborth hwnnw i ddal ati i wella'r gwasanaethau a gewch.

Fe wnaeth yr uno roi cyfle i ni ystyried dulliau gweithredu y ddwy gymdeithas tai flaenorol, adeiladu ar yr hyn oedd yn gweithio'n dda a chreu strategaeth newydd ar ymgysylltu â phreswylwyr sy'n nodi sut y byddwn yn rhoi gwybodaeth i chi, sut y gallwch gymryd rhan a sut y byddwn yn cynyddu ymddiriedaeth drwy wneud penderfyniadau gyda chi.

Rydym wedi gwrando ar adborth ar y strategaeth ac wedi llunio 'Addewid Beacon', sef ein hymrwymiad i ofyn, gwrando a gweithredu ar yr hyn a ddywedwch sydd bwysicaf i chi. Rydym wedi ceisio ei gwneud mor rhwydd ag sydd modd i chi gymryd rhan gydag amrywiaeth eang o ffyrdd i'ch lleisiau gael eu clywed.

*"Mae'r Addewid yn fwy na dim ond geiriau. Mae am newid y ffordd mae Beacon yn gweithio fel bod pob aelod o staff yn gwrando arnoch chi a bod eich profiadau yn helpu i lunio sut ydym yn dylunio, darparu ac adolygu gwasanaethau."*

Mae'n bwysig i mi gydnabod nad ydyn ni bob amser yn cael popeth yn gywir. Mae darparu ystod eang o wasanaethau i fwy na 9,000 o gartrefi mewn amgylchedd gyda llawer o reoleiddio yn fater cymhleth, ond rydw i'n ymroddedig i arwain tîm sy'n onest gyda chi, yn cymryd cyfrifoldeb pan mae pethau'n mynd o chwith ac yn dysgu o bob profiad.

Mae'n bwysig ein bod yn onest yn y bwletin hwn am y pethau anodd, nid dim ond rhannu newyddion da. Rydym yn gwybod fod heriau wedi bod yn y misoedd diwethaf wrth gysylltu â staff a chael atebion yn gyflym. Mae llawer o resymau am hyn, tebyg i recriwtio a hyfforddi staff newydd, symud i systemau technoleg gwybodaeth newydd a dod â thimau ynghyd, ond rydym eisiau i chi wybod ein bod yn gwneud pob ymdrech i wella amser aros galwadau, amserau ymateb ac ansawdd y gwasanaethau a ddarparwn.

Rydym yn gwybod fod llawer o aelwydydd yn wynebu pwysau costau byw ac yr effeithiwyd ar ymddiriedaeth mewn gwasanethau cyhoeddus mewn llawer o feysydd. Drwy wella sut ydym yn gwrando arnoch chi ac yn gweithio gyda chi, gobeithiaf y gallwn barhau i adeiladu ymddiriedaeth yn Beacon a darparu gwasanaethau yn y ffordd orau bosibl, nawr ac yn y dyfodol.

**Gobeithiaf y byddwch yn mwynhau'r bwletin ac edrychaf ymlaen at gwrdd â mwy ohonoch yn y dyfodol.**

**Serena Jones**
Cyfarwyddwr Gweithrediada



# ADDEWID BEACON

Mae Beacon eisiau creu lleoedd gwell ar gyfer pobl a'r blaned drwy weithio gyda chi a'ch rhoi chi yng nghanol popeth a wnawn. Addewid Beacon yw ein hymrwymiad i gwrando arnoch chi, gofyn beth sy'n bwysig i chi a gweithredu ar yr hyn a ddywedwch wrthym fel y gallwn wella gwasanaethau a helpu i adeiladu cymunedau cryfach.

Hyd yma, mae **1,053** o breswylwyr wedi cofrestru ac yn cymryd rhan yn **Addewid Beacon!**

### Beth mae hyn yn ei olygu i chi:

Mae Addewid Beacon yn ein helpu i:

- Gwneud gwasanaethau yn well, cyflymach a mwy ymatebol
- Cyfathrebu'n glir ac yn gyson am y pethau sy'n bwysig i'ch cartref
- Ei gwneud yn rhwyddach i chi gymryd rhan a llunio ein gwasanethau
- Bod yn onest! Byddwn yn cydnabod hynny os gwnawn gamgymeriad, rhannu ein llwyddiannau a chroesawu adborth
- Gwneud yn siŵr y caiff pawb gyfle i cael eu clywed
- Rhoi mwy o lais i chi mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnoch chi

## Ein tair egwyddor:

**Hysbysu**

**Cynnwys**

**Ymddiried**

- **Hysbysu:** Byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi mewn ffyrdd clir a syml, ar-lein a hefyd yn eich cymuned.
- **Cynnwys:** Byddwn yn gweithio gyda chi i lunio gwasanaethau a rhannu sut ydym yn gwneud.
- **Ymddiried:** Byddwn yn rhoi llais i chi mewn penderfyniadau mwy, tebyg i wariant, staff a gwasanaethau.



01792 479200 ask@beacon.cymru www.beacon.cymru @beaconcymrugroup

# Cymryd rhan

## yn yr hyn sy’n bwysig i chi



**Gallwch ddewis ymuno â grwpiau gyda ffocws ar yr hyn sy’n bwysig i chi:**

- Rhenti a thaliadau gwasanaeth fforddiadwy
- Adeiladu cartrefi newydd ac adfywio cymunedau
- Diogelwch adeiladau a chartrefi
- Prosiectau cymunedol
- Cyfathrebu
- Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant
- Perfformiad a gwella
- Recriwtio, dysgu a datblygu
- Gwaith trwsio a chynnal a chadw
- Profiadau preswylwyr a gwasanaethau tai
- Hunan-werthuso a rheoleiddio
- Yr iaith Gymraeg

**Rydym yn hapus i siarad gyda chi am unrhyw beth arall sy’n bwysig i chi a’ch cartref!**

I ganfod mwy am Addewid Beacon ac i gofrestru i gymryd rhan, ewch i’n tudalen gwe:

**CLICIWCH YMA**



01792 479200 ask@beacon.cymru www.beacon.cymru @beaconcymrugroup




Ni yw'r Tîm Ymgysylltu a Phreswylwyr, a gadewch i ni gyflwyno ein hun. **Leigh**, **Steph** a **Chloe** ydyn ni.

# Cwrdd â'r tîm!

Gall rhai ohonoch fod yn adnabod Steph a Leigh. Mae Chloe yn newydd i'r tîm ac mae'n edrych ymlaen at gwrdd â phawb a helpu i ddod ag Addewid Beacon yn fyw.

Rydym yn gweithio gyda'ch Tîm Cyswllt Preswylwyr, sy'n gweithio gyda'r Tîm Asedau a Chynnal a Chadw. Gyda'n gilydd, rydym yn cynorthwyo preswylwyr pan maent yn cael gwneud gwaith gwella a newidiadau i'w cartrefi.

**Rydym yn gyfeillgar, agos atoch a bob amser yn hapus i gael sgwrs, felly mae croeso i chi ddweud helo os gwelwch ni yn eich ardal. Rydym yma i wrando a gwneud yn siŵr y caiff eich llais ei glywed ac y gweithredir ar hynny.**

Cysylltwch â'r tîm Ymgysylltu â Phreswylwyr:

**promise@beacon.cymru**

**01792479200**

**@BeaconCymru**

**CLICIWCH YMA**

# #NewidYGallwchEiWeld

## Cwynion

Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi bod yn gweithio i uno'r ddau sefydliad. Fel rhan o hyn, fe wnaethom siarad gyda phreswylwyr dros y ffôn i ddeall eich profiad o'r polisïau cwynion blaenorol a'r hyn sydd bwysicaf i chi pan ydych yn gwneud cwyn. Fe wnaethom wrando ar yr hyn y gwnaethoch ei ddweud ac fe wnaeth eich adborth ein helpu i lunio polisi cwynion newydd, a byddwn yn rhannu hynny gyda chi yn fuan iawn.

## Cyfathrebu gyda chi




Efallai i chi weld ein fideo diweddar yn lansio Addewid Beacon. Byddem yn hoffi diolch i'r holl breswylwyr a gymerodd ran yn y fideo! Fe wnaethoch helpu i ddod ag ef yn fyw, a gobeithiwn y bydd hwn y cyntaf o lawer o fideos a chyfathrebiadau yr hoffech gymryd rhan ynddynt

**CLICIWCH YMA I WELD Y FIDEO**

Ym mhob Bwletin Beacon byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar y newidiadau a wnaethom yn dilyn pethau y gwnaethoch eu ddweud wrthym, sut y gwnaethoch gymryd rhan a'r adborth a gawsom gennych.

## Arolwg STAR

### (Arolwg Tenantiaid a Phreswylwyr)



Diolch i'r nifer ragorol o 2,915 o breswylwyr a lenwodd arolwg **STAR**, cyfle adborth cenedlaethol i bob landlord cymdeithasol yng Nghymru a gaiff ei adrodd i Lywodraeth Cymru bob dwy flynedd. Roedd llawer o gwestiynau, ac fe wnaethom ofyn yn benodol os hoffech gymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau am eich cartref a'ch cymuned. Rydym wrth ein bodd fod gan gynifer ohonoch ddiddordeb mewn cymryd rhan ac fe wnaeth hyn helpu i greu Addewid Beacon!

Caiff canlyniadau arolwg **STAR** eu hadrodd i Fwrdd Rheoli Beacon. Maent yn edrych ar a gwrando ar yr hyn y gwnaethoch ei ddweud wrthym, a byddwn yn mynd i'r afael â'r meysydd sydd angen sylw.

**Darllen mwy:** **CLICIWCH YMA**



01792 479200 ask@beacon.cymru www.beacon.cymru @beaconcymrugroup

Y llynedd fe wnaethom gynnal ymgynghoriad gyda chi am SATC. Fe wnaeth mwy na **2,000** ohonoch ymateb a rydym yn ddiolchgar i chi am eich adborth gwerthfawr.




# Safonau Ansawdd Tai Cymru (SATC)

Roedd yr arolwg yn gyfle i chi rannu beth sydd bwysicaf i chi o ran gwelliannau cartref a bydd eich adborth yn dechrau llunio'r hyn a wnawn a lle fydd ffocws ein buddsoddiad.

**Drwy'r ymgynghoriad ar SATC, fe wnaethom ofyn i chi roi eich tair prif flaenoriaeth, sef:**

- **Gwneud cartrefi** yn gynhesach a rhatach i'w gwresogi drwy ychwanegu gwell insiwleiddiad, paneli solar, neu wresogi mwy effeithiol
- **Cael cegin newydd** neu ddiweddaru eich cegin
- **Cael ffenestri newydd** yn eich cartref

Rydym yn gwybod beth yw eich blaenoriaethau ac mae hyn wedi ein helpu i benderfynu ar beth y byddwn yn gwrio arian eleni. Gallwn gadarnhau ein bod yn buddsoddi'n sylweddol yng nghartrefi Beacon eleni.

Rydym yn buddsoddi £6.5 miliwn mewn ceginau, ystafelloedd ymolchi, ffenestri a drysau. Rydym yn rhoi chwe lifft newydd yn lle'r rhai sydd yno yn barod ac yn addasu dwy lifft arall.

Rydym hefyd yn gosod chwe system chwistrellwyr mewn blociau o fflatiau ac yn gwneud gwaith diogelwch tân i dri bloc o fflatiau. Yn ychwanegol, yn buddsoddi £4 miliwn arall mewn paneli solar, insiwleiddiad, rhwydweithiau gwres a systemau rheoli amgylcheddol i wneud cartrefi yn fwy effeithiol o ran ynni, a, gobeithio, ostwng costau gwresogi.




Mae mwy o waith SATC gyda chi ar y gweill eleni fel y gallwn adeiladu ar eich adborth a'ch mewnbwn hyd yma. Byddwn yn rhoi gwybod i chi beth sy'n digwydd nesaf. Os ydych eisiau cymryd rhan, gallwch gofrestru drwy Grŵp Glasbrint Gwaith Trwsio a Chynnal a Chadw.

Mae croeso i chi gofrestru ar gyfer grŵp Glasbrint Gwaith Trwsio a Chynnal a Chadw os ydych eisiau cymryd rhan a dweud eich dweud!

**Mae mwy o wybodaeth ar gael ar ein gwefan:** **CLICIWCH YMA**




# Recriwtio y bobl gywir gyda chi

Am y tro cyntaf ers yr uno, cymerodd preswylwyr ran wrth recriwtio staff a helpu i recriwtio Chloe, ein Swyddog Ymgysylltu â Phreswylwyr newydd. Fe wnaethant gymryd rhan mewn cyfarfod lle gwnaeth ymgeiswyr arwain trafodaeth ar Addewid Beacon.

Gofynnodd preswylwyr gwestiynau gwych a helpu i ddewis y person gorau ar gyfer y swydd, gyda'u barn yn rhan bwysig o'r penderfyniad terfynol. Fe wnaethant fwynhau cymryd rhan, gydag un preswylydd yn dweud...

> *"Roeddwn yn teimlo mod i'n cael fy ngwerthfawrogi a bod fy marn yn bwysig ac y cefais fy nghlywed"*

Nid hwn fydd yr unig dro i breswylwyr gymryd rhan mewn recriwtio; bwriadwn wneud llawer mwy ohono.

**Os yw'n rhywbeth yr hoffech chi gymryd rhan ynddo, gadewch i ni wybod a**

COFRESTRWCH YMA

# Preswylwyr sy'n byw uwch ben ac yn agos at siopau a busnesau



Mae Beacon wedi bod yn ymwneud ers amser maith ag adfywio canol dinasoedd a threfi, gan adeiladu cartrefi newydd y mae llawer o angen amdanynt a chreu lleoedd ar gyfer busnesau syn cynyddu'r nifer sy'n ymweld â'r stryd fawr.

Buom yn siarad gyda phreswylwyr sy'n byw uwchben ac o amgylch siopau ac eiddo masnachol a osodwn. Rydym eisiau deall beth sydd bwysicaf i chi am lle'r ydych yn byw ac adnabod unrhyw faterion sy'n effeithio ar eich cartref a'r gymuned leol.

- A oes gennych chi sylwadau am brofiadau cadarnhaol neu negyddol yn eich cartref?
- A oes problemau gyda materion rhannu cyntedd?
- A hoffech siarad am nodweddion dylunio y gallwn eu hystyried ar gynlluniau datblygu'r dyfodol.

**Dywedwch wrthym beth sy'n eich poeni fel y gallwn gael cydweithwyr a phartneriaid i weithio ar gynllun i'w datrys.**



# Ydych chi eisiau cymryd rhan?

**Mae llawer o ffyrdd y gallwch ddweud eich dweud.**

## Dyma'r hyn y byddwn yn gweithio arno nesaf:

- Adolygu **porth newydd preswylwyr Beacon**. Fel y gwyddoch efallai, fe wnaeth ein hen borth MyRHA gau yn gynharach eleni. Rydym yn gwybod nad oedd yn gweithio gystal ag y medrai a dywedodd llawer ohonoch hynny wrthym. Fe wnaethom wrando a mae ein ffocws ar cael y pethau sylfaenol yn iawn. Y newyddion da yw ein bod yn adeiladu porth newydd sbon, a gaiff ei lansio ddechrau'r hydref, a gallwch helpu ei lunio o'r cychwyn cyntaf.
- Ymuno â'n Grŵp Glasbrint **Rhenti a Thaliadau Gwasanaeth**. Byddwn yn datblygu polisi newydd ar gyfer gosod rhenti a set o safonau ar gyfer taliadau gwasanaeth yn Beacon.
- Grŵp Glasbrint **Cyfathrebu** – helpwch ni i adolygu'r rhifyn hwn a chynllunio'r bwletin nesaf, adolygu gwefan Beacon ac edrych ar Adroddiad Blynyddol Preswylwyr 2026 – rydym eisiau gwneud ein cyfathrebu yn fwy diddorol i chi a gyda chi!
- Rydym hefyd yn edrych am breswylwyr i helpu i ddatblygu gwaith ar **Safonau Rheoleiddiol** a hunanasesiad Beacon.



Hoffech chi gymryd rhan yn unrhyw un o'r rhain? Byddem wrth ein bodd cael eich barn.



# Deddf Diogelwch Adeiladau (Cymru)

Mae Deddf Diogelwch Adeiladau (Cymru) bellach wedi dod i rym. Mae'n ddull gweithredu newydd at ddiogelwch adeiladau, gan roi cyfrifoldebau ychwanegol ar landlordiaid a phreswylwyr. Hoffem alw hyn yn **Beacon Diogel**. Beth yw eich barn chi?

## Beth yw Deddf Diogelwch Adeiladau (Cymru)

- Mae'r Ddeddf yn cyflwyno system diogelwch newydd ar gyfer pobl sy'n byw mewn adeiladau rhannu yng Nghymru.
- Mae'n weithredol ar gyfer pob adeilad rhannu, pa bynnag mor uchel ydynt neu pwy sy'n berchen arnynt.
- Cafodd ei llunio ar ôl tân Grenfell Tower yn 2017, lle bu 72 o bobl farw.
- Y nod yw gwneud yn siŵr nad oes trychineb o'r fath byth yn digwydd yng Nghymru.

## Pam fod y Bil hwn yn bwysig?

- Mae'n gwneud adeiladau'n fwy diogel i bawb.
- Mae'n gosod rheolau clir ar gyfer y bobl sy'n rheoli adeiladau.
- Mae'n rhoi llais cryfach i breswylwyr mewn penderfyniadau am eu cartrefi.

## Beth mae hyn yn ei olygu i chi

- Cartrefi mwy diogel a gwybodaeth gliriach.
- Mwy o rym i godi llais am broblemau.
- Hyder fod yn rhaid i reolwyr adeiladau ddilyn y gyfraith.

**Diolch yn fawr iawn i breswylwyr Strand Court yn Abertawe a wnaeth ein helpu i beilota'r gwaith hwn.**

Yn flaenorol, pan oedd gwaith mawr yn Strand Court, fe wnaeth preswylwyr ein helpu i ddysgu fod angen i ni weithio'n fwy agos gyda'r contractwyr a chyflwyno rhaglenni gwaith yn fwy effeithlon mewn camau mwy. Rydym nawr yn deall fod angen i ni gyfathrebu'n well gyda chi ac mae gennym swyddog cyswllt preswylwyr i gefnogi hyn.

**Byddwn yn ymweld â phreswylwyr yn Barons Court, Abertawe a Strand Quarter, Abertawe yn yr ychydig fisoedd nesaf. Dewch draw i ddweud helo os ydych yn byw yn un o'r safleoedd yma.**



# Mae llawer mwy ar y gorwel yn Beacon

**Byddwch yn ein gweld yn eich cymunedau! Cadwch eich llygad ar agor am y Bws Beacon newydd a Diwrnod Bwrlwm Beacon.**

Rydym yn buddsoddi mewn **Bws Beacon** fydd yn ymweld â stadau a chymunedau i glywed am eich pryderon, syniadau ac awgrymiadau ar gyfer gwella. Rydyn ni eisiau dechrau sgyrsiau gyda chi am bolisi gosod rhenti, safonau tâl gwasanaeth, diogelwch adeiladau mwy.

Ar ddyddiau **Bwrlwm Beacon**, bydd pob aelod o staff Beacon yn mynd o gwmpas cymunedau ac yn ymweld â chi gartref. Rydym eisiau creu cysylltiadau cryfach a sicrhau fod ymgysylltu â phreswylwyr yn fusnes pawb.

## Cysylltu â ni

Rydyn ni'n gwybod y bu'r uno yn amser heriol i lawer ohonoch a rydym yn gwir werthfawrogi eich amynedd a'ch cefnogaeth. Mae dod â thimau ynghyd a symud i systemau newydd wedi achosi peth oedi, yn cynnwys cymryd mwy o amser i ateb y ffôn, a rydym yn gweithio'n galed i wella hyn.

Wrth i ni barhau i sefydlu'r ffyrdd newydd yma o weithio, rydym yn ddiolchgar am eich amynedd ac yn edrych ymlaen at weithio'n fwy agos gyda chi a rhoi mwy o gyfleoedd i chi gymryd rhan.




01792 479200

ask@beacon.cymru

beacon.cymru

@beaconcymrugroup